

**Tystiolaeth i'r
Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru**

**Submission to the
Commission on Justice in Wales**

1. Cyflwyniad

Pwrpas y dystiolaeth hon yw darparu gwybodaeth am yr hyn y mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, mewn partneriaeth ag Uned Iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, wedi ei wneud i sicrhau trefn a safon broffesiynol wrth ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd (CAP) Cymraeg/Saesneg yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yng Nghymru. Mae'r drefn hon yn un a gaiff ei chydabod gan y farnwriaeth Gymraeg fel un dibynadwy a chywir.

2. Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw'r unig gymdeithas broffesiynol ar gyfer cyfieithwyr Cymraeg/Saesneg, p'un a ydynt yn gyfieithwyr testun ynteu'n gyfieithwyr ar y pryd. Mae gan y Gymdeithas dair lefel o aelodaeth: Cyflawn a Sylfaenol ym maes cyfieithu testun, ac aelodaeth Cyfieithu ar y Pryd (CAP), y naill i'r Saesneg a'r llall i'r Gymraeg.

Mae'r Gymdeithas yn arwain, datblygu a hyrwyddo cyfieithu proffesiynol Cymraeg/Saesneg. Mae'n cynrychioli pob agwedd ar gyfieithu proffesiynol Cymraeg/Saesneg: mae aelodau'r Gymdeithas yn gweithio mewn swyddi yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn y sector preifat, ac ar eu liwt eu hunain.

I gael gwybod rhagor, ewch i wefan y Gymdeithas,
<https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/>

Introduction

The purpose of this submission is to provide information regarding the work undertaken by Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, in partnership with HM Courts & Tribunals Service Welsh Language Unit, to ensure professional arrangements and standards when providing English/Welsh interpreting in courts and tribunals in Wales. The Welsh judiciary regard these arrangements as being reliable and accurate.

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru – the association of Welsh translators and interpreters (the Association) – is the only professional association for English/Welsh translators and interpreters. The Association has three levels of membership: Full and Basic membership for translators and, for interpreters, Interpreting membership both into English and into Welsh.

The Association leads, develops and promotes professional English/Welsh translation and interpreting. It represents all aspects of English/Welsh translation and interpreting: its members work in the public and third sectors, the private sector, and as freelancers.

For further information, go to the Association's website,
<https://www.cyfieithwyr.cymru/en/>.

3. Llythyr gan y Barnwr Eleri Rees (2017)

Serch bod perthynas y Gymdeithas â'r Uned Iaith Gymraeg yn mynd yn ôl rhai blynyddoedd, roedd y llythyr dyddiedig 19 Rhagfyr 2007 a gafodd y Gymdeithas gan y Barnwr Eleri Rees, Barnwr Cyswllt y Gymraeg ar y pryd, yn un arwyddocaol. Ynddo fe ysgrifennodd hi,

“Credaf fod penderfyniad Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru i gyflwyno trefn arholi ar gyfer cyfieithwyr ar y pryd, rhyw ddwy flynedd yn ôl, wedi bod yn benderfyniad pwysig o ran sefydlu system o achrediad proffesiynol i gyfieithwyr ac i sicrhau cysondeb mewn safon. Yn dilyn hyn, penderfyniad eithaf hawdd oedd i ni fel gwasanaeth i newid ein polisi (o Ebrill 2008 ymlaen) i ddewis cyfieithwyr ar y pryd i gyfieithu mewn achosion llys oddi ar restr y Gymdeithas o'r rhai sydd wedi llwyddo yn ei harholiadau.”

Fe ofynnwyd i'r Gymdeithas hefyd yn y llythyr hwnnw i gynnal Prawf CAP i'r Gymraeg at ddibenion cyfieithu ar y pryd yn y llysoedd yn unig – dim ond i'r Saesneg y cynhelid Prawf CAP y Gymdeithas yr adeg honno a dim ond aelodaeth CAP i'r Saesneg oedd gan y Gymdeithas. Cynhaliwyd y Prawf CAP hwnnw yn 2009.

Roedd llythyr y Barnwr Eleri Rees yn gam pwysig ac arwyddocaol wrth sicrhau y câi ansawdd CAP yn y llysoedd ei ddiogelu, y byddai cysondeb yn safon y cyfieithu ar y pryd hwnnw gan y byddai'n seiliedig ar safonau uchaf y proffesiwn, ac y câi hawliau unigolion eu gwarchod.

4. Adolygu'r trefniadau wrth ddarparu CAP (2013)

Yn 2013 cynhaliodd Uned Iaith Gymraeg GLITEM adolygiad trylwyr o'r trefniadau ar gyfer sicrhau gwasanaeth cyfieithydd ar y pryd Cymraeg/Saesneg ar gyfer achosion llys a thribiwnlysoedd lle'r oedd gofyniad ieithyddol Cymraeg wedi'i nodi. O ganlyniad, sefydlwyd gweithdrefn newydd

Letter from Judge Eleri Rees (2017)

Although the relationship between the Association and the Welsh Language Unit goes back many years, the letter of 19 December 2007 to the Association from Judge Eleri Rees, the then Liaison Judge for the Welsh language, was significant. She wrote:

“I believe that Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru's decision some two years ago to introduce an examination process for interpreters was an important one in that it established a system of professional accreditation for interpreters and ensured a more consistent standard. It was thus a fairly easy decision for us as a service to change our policy (from April 2008) to choose interpreters for court cases from the association's list of those who have passed its examinations.”

In that letter, the Association was also asked to hold an Interpreting Test into Welsh for the purpose of interpreting in courts – at the time the Association's Interpreting Test only involved interpreting into English and Interpreting membership was into English only. That Interpreting Test was held in 2009.

Judge Eleri Rees's letter was an important and significant step forward in ensuring that the quality of interpreting in courts would be protected, that there would be a consistent standard in the interpreting provided as it would be based on the highest professional standards, and that the rights of individuals would be safeguarded.

The review of procedures for interpreting (2013)

In 2013 HMCTS Welsh Language Unit undertook a thorough review of the procedures for booking English/Welsh interpreters in court and tribunal cases where a Welsh language requirement had been indicated. As a result, the new procedures provided courts and tribunals

a roddai gyfarwyddyd clir i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd ynghylch llogi gwasanaeth cyfieithwyr ar y pryd Cymraeg/Saesneg cymwys a oedd yn gorfod bod yn aelodau CAP o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Canlyniad arall yr adolygiad oedd sicrhau fod cyfieithwyr ar y pryd yn cael yr holl wybodaeth berthnasol am yr achos ymlaen llaw, rhywbeth sy'n hanfodol bwysig wrth ddarparu gwasanaeth effeithiol a phroffesiynol.

5. Maes Arbenigedd Proffesiynol: CAP yn y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd (2015)

Yn 2015 penderfynodd y Gymdeithas sefydlu trefn ar gyfer cydnabod Meysydd Arbenigedd Proffesiynol (MAP) ei haelodau Cyflawn a CAP. Y maes arbenigedd proffesiynol cyntaf oedd CAP yn y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd.

Wrth ddewis y maes arbenigedd proffesiynol hwn, gwelwyd cyfle i gryfhau rhagor ar swyddogaeth bwysig CAP yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, yn ogystal â'r holl drefniadau a fu mewn grym ers mis Ebrill 2008. Roedd hefyd yn gyfle i gryfhau statws cyfieithwyr ar y pryd Cymraeg/Saesneg proffesiynol yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd rhoi bri ar y grefft a'r alwedigaeth.

Wrth fynd ati i lunio'r MAP hwn, y prif faen prawf wrth roi'r gydnabyddiaeth i'r cyfieithwyr cyntaf oedd eu profiad wrth gyfieithu ar y pryd yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Fe wnaed hyn ar sail cofnodion Uned Iaith Gymraeg GLITEM a thystiolaeth cyfieithwyr eu hunain. At y dyfodol eir ati, yn ôl yr angen, i drefnu cyflwyniad priodol i waith a gweithdrefnau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd i gyfieithwyr sydd heb brofiad o hyn.

Fel rhan o'r trefniadau hyn bwriadir trefnu seminar pob dwy flynedd i gyfieithwyr ar y pryd a gweithwyr llys a fydd yn gyfle i drafod materion sydd o ddiddordeb cyffredinol fel y gall y ddwy ochr gael deall anghenion y naill a'r llall yn well. Fel rhan

with clear guidelines with regard to hiring the services of qualified English/Welsh interpreters who had to be members of Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Another result of the review was to ensure that interpreters were provided with all relevant information in advance of a hearing, which is extremely important when providing an effective and professional service.

Area of Professional Expertise: Interpreting in Courts and Tribunals (2015)

In 2015 the Association decided to establish a means of recognising Areas of Professional Expertise of its Full and Interpreting members. The first area of professional expertise was Interpreting in Courts and Tribunals.

In choosing this area of professional expertise, there was an opportunity to further strengthen the important role of interpreting in courts and tribunals, as well as all the arrangements which had been put in place since April 2008. It was also an opportunity to strengthen the status of professional English/Welsh interpreters in courts and tribunals and to highlight that interpreting is a respected craft and vocation.

Our main criterion for acknowledging the professional expertise of the initial interpreters was based on the experience each one of them had gained of interpreting in courts and tribunals. This was done by using HMCTS Welsh Language Unit records and evidence from the interpreters themselves. In the future and according to demand, there will be a programme of induction to the work of courts and tribunals for interpreters who have no experience of this.

As part of this new process we shall also be arranging a seminar every two years for interpreters and court staff, providing an opportunity to discuss matters of mutual interest and for both parties to better understand each other's needs. As

o'u hymrwymiad i ddatblygu proffesiynol parhaus, disgwylir i'r cyfieithwyr ar y pryd hyn fod yn gyfarwydd â datblygiadau yn y maes.

Ym mha gyfeiriad bynnag y mae angen darparu gwasanaeth CAP Cymraeg/Saesneg yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yng Nghymru, caiff hynny ei wneud gan aelod CAP o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru sy'n meddu ar y gydnabyddiaeth MAP: CAP yn y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd. Hyd yn hyn mae 24 o aelodau CAP y Gymdeithas wedi cael y gydnabyddiaeth hon, cydnabyddiaeth a gaiff ei chynnwys yng Nghofnod Aelodaeth yr aelodau hyn ar wefan y Gymdeithas.

Roedd datblygu MAP: CAP yn y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r neges glir a diamheuol a gafwyd gan y Barnwr Eleri Rees yn 2007. Bydd yn cryfhau byrdwn ei llythyr fod y safonau proffesiynol a arddelir ac a hybir gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn bwysig yn llysoedd a thribiwnlysoedd Cymru. Bydd yn rhoi sicrwydd i bob un sy'n rhan uniongyrchol o'r drefn o weinyddu cyfiawnder, a'r cyhoedd yn gyffredinol, fod cyfieithwyr ar y pryd cymwys ar gael i wneud y gwaith a bod y rhain yn bobol broffesiynol y gellir ymddiried ynddyn nhw.

6. I gloi

Yr hyn sy'n bwysig i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw gwneud yn siŵr y bydd y gwasanaeth CAP Cymraeg/Saesneg a geir yn llysoedd a thribiwnlysoedd Cymru yn parhau i fod yn un o safon broffesiynol uchel ac yn un y gellir ymfalchïo ynddi. Bwriad y Gymdeithas yw parhau i gydweithio'n agos ag Uned Iaith Gymraeg GLITEM i warchod a datblygu'r drefn sydd gennym. Mae hon yn drefn effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian ac yn bwysig iawn, mae'n drefn y mae ymddiriedaeth lwyr ynddi hi.

part of their commitment to CPD, interpreters will be expected to keep abreast of relevant developments.

In whichever direction there is a need for English/Welsh interpreting in courts and tribunals in Wales it will be provided by an Interpreting member of Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru who has been recognised in the Area of Professional Expertise: Interpreting in Courts and Tribunals. To date 24 of the Association's Interpreting members have been so recognised, and this can be seen in the Membership Record of these members on the Association's website.

Developing the Area of Professional Expertise: Interpreting in Courts and Tribunals links in directly with Judge Eleri Rees's letter and will strengthen the clear and unambiguous message given in that letter that the professional standards that Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru upholds and promotes are important in courts and tribunals in Wales. It will provide assurance for everyone directly involved in the administration of justice, and the general public, that trustworthy and qualified interpreters are available to undertake the work.

In conclusion

Ensuring that English/Welsh interpreting in courts and tribunals in Wales continues to be of a high professional standard and one in which we can be proud of is of great importance to Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru. The Association intends to continue working closely with HMCTS Welsh Language Unit to protect and develop the arrangements we have in place. These are effective arrangements which provide value for money and importantly, are arrangements in which there is complete trust.